**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving a Merfyn Parry |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *-*<br><br>*(a) y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016 fel cofnod cywir, a*<br><br>*(b) bod swyddogion yn ymchwilio i'r prosesau archebu a ddefnyddir gan wasanaethau tacsi hygyrch i gadeiriau olwyn yn yr ardal ac a oedd cynlluniau wrth gefn priodol ar waith i ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.* |
| **5** | POLISI ARFAETHEDIG CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Trwyddedu yn -*<br><br>*(a) mabwysiadu Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, y Manyleb ac Amodau yn Atodiad 1 i'r adroddiad, sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2017.*<br><br>*(b) awdurdodi'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gan ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu i wneud mân ddiwygiadau gweinyddol i'r polisi lle bo angen, yn dilyn adolygiad bob tair blynedd neu'n gynt os yn briodol.* |
| **6** | DIWEDDARIAD AR Y WEITHDREFN PWYNTIAU COSB | ***PENDERFYNWYD*** *bod y wybodaeth a ddarperir ar y dadansoddiad o'r pwyntiau a gyhoeddwyd fel y manylwyd yn yr adroddiad yn cael ei chydnabod.* |
| **7** | ADOLYGU'R POLISI MASNACHU | ***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi a bod swyddogion yn cael eu* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | AR Y STRYD | *hawdurdodi i barhau â'r gwaith ar y Polisi Masnachu ar y Stryd drafft drwy weithio gyda Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned ac adrannau perthnasol o fewn y Cyngor i sefydlu eu barn cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.* |
| **8** | ADOLYGU'R POLISI SEFYDLIAD RHYW | ***PENDERFYNWYD** bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi a bod y terfynau amser ynddo ynglŷn â chreu Polisi Sefydliad Rhyw drafft diwygiedig yn cael eu cymeradwyo.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2017 | ***PENDERFYNWYD**:-*<br>*(a) y dylid cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylwyd yn yr atodiad i'r adroddiad, a*<br>*(b) bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i gyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol ar dreigl 12 mis i'w diweddaru ar gyfer pob cyfarfod Pwyllgor.* |
| **10** | CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD** bod y cais ar gyfer Trwydded Cerbyd Hurio Preifat yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau ychwanegol a nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad.* |